# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## EL(3) 16-10 (p1) : 8 Gorffennaf 2010

### Rôl mentrau cymdeithasol yn economi Cymru - WCVA

**Cyflwyniad**

Mae WCVA yn cynrychioli mudiadau gwirfoddol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli yng Nghymru, gan ymgyrchu drostynt, eu cefnogi a'u datblygu. Mae gan WCVA dros 2,500 o aelodau, ac mae mewn cysylltiad â nifer o fudiadau eraill drwy amrywiaeth eang o rwydweithiau cenedlaethol a lleol. Mae'n gweithio'n agos gyda'r cynghorau gwirfoddol sirol i roi gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr a chysylltiedig i'r trydydd sector yng Nghymru, drwy gytundeb Partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'r cynghorau gwirfoddol sirol, enwyd WCVA yn brif ddarparwr cefnogaeth i fudiadau menter gymdeithasol ym mhrosiect ymchwil diweddar Llywodraeth Cymru, 'Mapio Gweithgarwch Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru', ac mae darparwyr arbenigol megis Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi'r mentrau mwyaf datblygedig.

**Graddfa a natur y sector menter gymdeithasol yng Nghymru**

Roedd 'Mapio Gweithgarwch Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru' yn rhoi'r asesiad manylaf o faint menter gymdeithasol yng Nghymru. Canfu 3,056 o fudiadau sy'n gwneud gweithgarwch ar sail menter gymdeithasol. Cyfwelwyd â 600 o fudiadau – grwp amrywiol yn amrywio o fudiadau gwirfoddol a chymunedol lleol sy'n gwneud rhywfaint o fasnachu i godi arian, i undebau credyd, cydweithfeydd bwyd neu amaeth mawr, cymdeithasau tai a Glas Cymru ei hun. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod gan y mudiadau hyn drosiant o £2.2 biliwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys y sefydliadau cydfuddiannol ariannol mawr (e.e. Cymdeithasau Adeiladu'r Nationwide a'r Principality), a dimensiwn Cymreig sefydliadau Prydeinig megis Partneriaeth John Lewis, y Gymdeithas Gydweithredol a Railtrack. Hefyd, eithriwyd elusennau mawr sy'n gwneud gweithgarwch masnachu ond sydd â'u cyfeiriad cofrestredig y tu allan i Gymru. Gallent fod yn gwerthu nwyddau fel rhan o weithgarwch craidd yr elusen, neu drwy gangen fasnachu. Er enghraifft, ceir o leiaf 380 o siopau elusen yng Nghymru.

Mae cronfa ddata trydydd sector Cymru Gyfan WCVA yn cynnwys y niferoedd canlynol o fudiadau a chanddynt wahanol ffurfiau cyfreithiol neu gofrestriadau â chorff rheoleiddio:

| **Ffurf gyfreithiol** | **Nifer** |
|---|---|
| Elusen Gofrestredig | 8,475 |
| Cwmni Cyfyngedig drwy Warant neu gyfranddaliadau | 350 |
| Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus | 101 |
| Cofrestrwyd â'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol | 96 |
| Cwmni Budd Cymunedol | 61 |
| Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | 100 |
| Cymdeithas Gyfeillgar Gofrestredig | 70 |
| Cydweithfa | 355 |

**Diffinio menter gymdeithasol**

Mae'r ymchwil mapio'n dangos anawsterau diffinio menter gymdeithasol. Drwy ddechrau ar ffigur trothwy isel iawn (h.y. 15-25% o incwm drwy fasnachu) byddai wedi cynnwys bron unrhyw elusen, grwp cymunedol neu fudiad gwirfoddol.

Felly, nid yw'n syndod, ar ôl dileu'r 10 uchaf sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trosiant – sef Glas Cymru (28%), 13 o gymdeithasau tai (26%) a Chanolfan Mileniwm Cymru – bod y mwyafrif sy'n weddill yn rhoi proffil digon gwahanol. Mae'r ymchwil yn dangos nad yw 50% yn cyflogi staff llawn-amser; bod 90% yn dibynnu ar wirfoddolwyr; bod eisiau cymorth grant 'craidd' ar 100%, o gymharu â dim ond 16%

sydd ag eisiau benthyciadau.  Mae'r sampl o 600 yn cynnwys neuaddau a chanolfannau cymunedol, RSPCA, Age Concern, Cymorth i Ferched, Cymdeithasau MIND, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, cynlluniau Croesffyrdd, grwpiau chwarae cyn ysgol, cymdeithasau o bobl â nam ar eu golwg, ac ati.

Roedd cyfansoddiad y 600 mudiad a gyfwelwyd yn rhoi adlewyrchiad da o'r hyn a ystyrir fel y trydydd sector ehangach. Amcangyfrifir ei fod ar hyn o bryd yn cynnwys o leiaf 30,000 o fudiadau yng Nghymru gyda throsiant o £1.6 biliwn.  Mae'n awgrymu bod y rhan fwyaf o fudiadau yn y sampl yn ceisio amrywio eu cyllid, a'u bod yn troi at WCVA a chynghorau gwirfoddol sirol am gymorth gweithgar i'w helpu (mae 65% o'r mudiadau a gyfwelwyd yn aelodau o WCVA neu o gynghorau gwirfoddol sirol).

Felly, mae WCVA yn cytuno â'r astudiaeth gwmpasu pan ddywed "nid sector ar wahân yw menter gymdeithasol – yn hytrach, ffordd o gynnal busnes ydyw".  Mae ceisio diffinio a mapio menter gymdeithasol wedi defnyddio egni ac adnoddau, a heb lawer o ddiben yn y pen draw.  Yr hyn sy'n bwysig cydnabod yw bod y trydydd sector yn gweithredu mewn amgylchedd mwyfwy heriol, a bod mudiadau sy'n cyflenwi gwasanaethau'n wynebu'r un heriau cyffredinol ag unrhyw fusnes arall. Felly, mae'n hollbwysig sicrhau bod mudiadau trydydd sector o unrhyw fath, sut bynnag y byddant yn diffinio eu hunain, yn cael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i:

Gynyddu eu sgiliau busnes a masnacho

Canfod yr holl ffynonellau incwm sydd ar gael iddynt a'u cynyddu gymaint â phosibl, gan gynnwys masnachu nwyddau a gwasanaethau

Yn unol â'r argymhellion yn 'Mapio Gweithgarwch Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru', mae WCVA wedi datblygu set o wasanaethau i helpu pob mudiad trydydd sector i amrywio ei sail incwm, gan gynnwys cynyddu i'r eithaf ei botensial i fasnachu.   Mae'r rhain yn cynnwys:

Hyfforddiant am sut i dendro am gontractau

cwrs deuddydd 'Sut i Dendro' wedi'i drefnu'n fisol mewn lleoliadau ledled Cymru (naw cwrs y llynedd gyda 128 o gyfranogwyr)

'Dosbarthiadau meistr' ar Strwythuro ac Ysgrifennu Tendrau Cystadleuol a Chyflwyniadau Tendrau Cystadleuol

Hyfforddiant 'Gwneud i Asedau Weithio' a digwyddiadau ar y cyd gyda BIG yn hyrwyddo'r gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Hyfforddiant rhagarweiniol 'Masnachu'

Canllaw i fasnachu'r trydydd sector, i'w gyhoeddi eleni

Gwefan masnachu'r trydydd sector, www.3to3.org.uk, i fudiadau fasnachu nwyddau a gwasanaethau gyda'i gilydd a gyda'r cyhoedd

Cyngor am amrywio cyllid gan brosiect Cyllid Cynaliadwy Cymru WCVA a'r porth cyllid www.sustainablefundingcymru.org.uk

Cynllun benthyciadau gwerth £6m (y Gronfa Buddsoddi Cymunedol)

Datblygu ac ariannu mudiadau'r farchnad lafur drosiannol

**Cyfleoedd am ddatblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio cymunedol a gyflwynir gan fodel busnes menter gymdeithasol**

Yn amlwg, ceir cyfleoedd i fusnesau yn y trydydd sector gyfrannu at ddatblygu economaidd.  Mae gan y sector weithlu sylweddol o 51,000 o weithwyr (mwy o weithwyr na'r sector Trafnidiaeth a Chyfathrebu, a bron dair gwaith cymaint o weithwyr ag Amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig).  Gall mudiadau sy'n masnachu gystadlu yn y farchnad â busnesau sector preifat, manteisio ar farchnadoedd y mae'r sector preifat wedi tynnu allan ohonynt, neu ddatblygu busnesau cymunedol i ddiwallu anghenion, gan gynnwys ar lefel cymuned leol, nad yw'r sector preifat wedi'u canfod neu nad ydynt yn ddichonadwy i'r sector preifat.  Wrth gwrs, bydd cyflwr yr economi'n effeithio ar y sector yn yr un modd ag unrhyw fusnes sector preifat.

Ceir cyfle i ddefnyddio dull trydydd sector neu fenter gymdeithasol i gyflenwi gwasanaethau'r sector cyhoeddus, gan gynnig:

Gwell cwmpas am wasanaethau 'wedi'u teilwra' i weddu i amgylchiadau ac anghenion penodol cymunedau

Y cyfle i ddefnyddio contractau â'r sector cyhoeddus fel cam cyntaf tuag at gynaliadwyedd

Potensial am well gwerth am arian y sector cyhoeddus, gan alw ar gefnogaeth ac adnoddau ychwanegol gan y gymuned

Er mwyn i'r dulliau hyn ffynnu, bydd angen i'r sector cyhoeddus fod yn dymuno ystyried darparwyr gwahanol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn creu marchnad ble gall mudiadau weithredu, a bydd angen trefniadau caffael priodol.

Mae datblygu ar sail asedau cymunedol yn gyfle arall.  Gall trosglwyddo asedau o'r sector cyhoeddus i berchenogaeth gymunedol roi llwyfan ar gyfer cynnal gwasanaethau a mudiadau cymunedol, gyda'r potensial i gynhyrchu incwm a chynyddu asedau cyfalaf.  Mae £13m o gyllid WAG a'r Loteri Fawr wedi'i ymrwymo i gefnogi mudiadau sy'n symud i adeiladau cyhoeddus sy'n ddiangen neu ddim yn cael eu defnyddio.

Mae'r dull hwn yn cyflwyno heriau o ran cymryd y cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau mwy hirdymor sy'n rhan o fod yn berchen ar adeiladau a'u rheoli.  Mae'n bwysig bod y math cywir o gefnogaeth busnes ar gael iddynt.  Eto, mae'r dull hwn yn dibynnu'n rhannol ar barodrwydd y sector cyhoeddus i drosglwyddo asedau hyfyw i berchenogaeth gymunedol, a chreu marchnad ble gall y sector dyfu.

**Heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru**

Mae mynediad at gyllid yn gwella yng Nghymru, ond mae rhwystrau'n dal i fodoli, megis diffyg diogelwch a/neu warantau cyfochrog. Er bod ymwybyddiaeth yn gwella, mae banciau masnachol yn 'ddarniog' o ran eu hawydd i ddarparu cyllid – mae'n ymddangos bod llawer yn dibynnu ar wybodaeth leol ac ar ddealltwriaeth unigolion o'r sector. Byddai ymgyrch gan fanciau'r brif ffrwd i addysgu eu staff yn helpu.

Gall Busnesau Bach a Chanolig y sector preifat yng Nghymru gael mynediad at gyfalaf risg drwy fuddsoddiadau ecwiti gan Gyllid Cymru a gan ffynonellau cyfalaf eraill i fentrau bach, ond ni all mudiadau'r trydydd sector gael mynediad at y math hwn o fuddsoddiad ecwiti sy'n rhoi cyllid mwy hirdymor gan ohirio'r ad-daliadau ariannol. Bydd Cronfa Buddsoddi Cymunedol newydd WCVA (CIF2) yn rhoi £6m o gyllid benthyciad i fudiadau mewn ardaloedd Cydgyfeirio.

Cafodd y rhaglenni cyllid Ewropeaidd a newidiwyd effaith fawr ar nifer o fudiadau yng Nghymru gan nad oedd cyfleoedd tendro'n ymddangos o raglenni strategol, neu o leiaf, ddim yn gwneud hynny'n ddigon cyflym. I unioni hyn, datblygodd WCVA eu rhaglen Porth Anweithgarwch Economaidd (ym meysydd Cydgyfeirio a Chystadleurwydd) yn union er mwyn creu cyfleoedd tendro wedi'u dylunio i fudiadau llai.

Mae tendro am gontractau gwasanaethau'r sector cyhoeddus yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol, ond dim ond os yw'r sector cyhoeddus yn croesawu'r egwyddor bod y trydydd sector yn cyflenwi gwasanaethau. Eto, gallant greu marchnad am fwy o weithgarwch, a heb hyn, cyfyngir ar dwf. Bydd CIF2 WCVA yn cynnwys £4m o 'Fuddsoddi i Wasanaethu' a fydd yn buddsoddi cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gan y trydydd sector ym maes Cydgyfeirio, ac yn hwyluso hynny, ond ni fydd buddsoddiad o'r fath yn gweithio oni bai bod contractau ar gynnig.

**Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fentrau cymdeithasol**

Gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009, cafwyd ymrwymiad pwysig drwy Brosiect Cefnogi Mentrau Cymdeithasol Canolfan Cydweithredol Cymru ym maes Cydgyfeirio. Mae hwn yn rhoi cefnogaeth busnes a chymorth ymarferol i'r farchnad, ac mae'r gwasanaethau hyn gyda hyfforddiant WCVA am sut i dendro, gwneud i asedau weithio a chyflwyniad i fasnachu a ddisgrifiwyd ym mharagraff 8 uchod.

Mae prosiect datblygu economaidd cymunedol cyflenwol ym maes Cydgyfeirio, a gyflwynwyd gan WCVA ar ran cynghorau gwirfoddol sirol, wrthi'n mynd drwy gamau olaf asesiad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd y prosiect yn rhoi cymorth ymarferol ar lefel leol i gefnogi mudiadau'r trydydd sector i symud tuag at ddod yn fwy cynaliadwy o safbwynt ariannol.

Mae Cymorth Hyblyg i Fusnesau (**FS4B**) yn cefnogi busnesau'r trydydd sector, ac mae wedi datblygu nodiadau cyfarwyddyd i'w hymgynghorwyr gyda chyfraniad gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, WCVA ac Uned y Trydydd Sector.

Fel y nodwyd eisoes, gall y sector cyhoeddus ehangu'r farchnad, a gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i herio cyrff cyhoeddus o ran eu polisïau a'u harferion o ran comisiynu a chaffael gwasanaethau. Rydym yn cytuno â'r argymhelliad yn Mapio Gweithgarwch Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru y dylai'r llywodraeth fynd ati'n flaengar i gynnwys awdurdodau lleol yn yr agenda hon, a dylai hyn fod yr un mor berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill. Yn benodol, mae angen arweiniad clir gan y llywodraeth yn ei hagenda ar gyfer diwygio a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym hefyd yn cytuno bod angen sicrhau bod cefnogaeth busnes wedi'i theilwra ar gael. Nid yw hyn yn golygu creu gwasanaethau cefnogi paralel a all ddyblygu'r hyn sydd ar gael eisoes, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae angen gwell alinio o ran gwasanaethau seilwaith y trydydd sector, a gwasanaethau cefnogi busnes, a chefnogaeth arbenigol pan fo ei hangen. Mae angen i ni sicrhau:

Bod seilwaith cyffredinol y trydydd sector – sef y brif ffynhonnell cefnogaeth eisoes – yn mynd ati'n weithgar i hyrwyddo diwylliant menter yn ei waith gyda mudiadau presennol a mudiadau newydd

Bod darparwyr cefnogaeth busnes y brif ffrwd yn deall mudiadau'r trydydd sector ac yn mynd ati'n weithgar i'w cynorthwyo i ddatblygu a chynnal eu gweithgareddau busnes

Bod protocolau ac, os bydd ei hangen, cefnogaeth arbenigol ychwanegol, ar gael i sicrhau dilyniant a mynediad at wasanaethau gan ba asiantaeth bynnag sydd yn y sefyllfa orau i'w darparu.

**Arloesi cymdeithasol – datrysiadau newydd i'r heriau a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol**

Mae cwmpas o fewn menter gymdeithasol i ddatblygu datrysiadau arloesol. Er enghraifft, dechreuodd Your Pets Warehouse yn Nhonypandy fasnachu ym mis Mawrth 2009. Mae'n siop anifeiliaid anwes 2000 troedfedd sgwâr sy'n cynnig amrywiaeth lawn o gynhyrchion ac anifeiliaid anwes bach ar werth, gan weithredu'n llwyr fel busnes ond yn darparu hyfforddiant achrededig i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn partneriaeth ag asiantaeth hyfforddi, yna'n lleoli'r bobl ifanc hynny mewn cyflogaeth barhaol drwy asiantaeth cyflogaeth dan gymorth.

Mae darparu cyflogaeth dan gymorth yn faes pwysig, a bydd yn aml yn elwa o gyllid cyhoeddus drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop neu wasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn cymorthdalu'r mudiad gan ei alluogi i ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau mewn modd economaidd hyfyw pan mae'n bosibl na fyddai modd gwneud hynny fel arall.

Roedd ar y rhan fwyaf o sefydliadau a gyfwelwyd yn yr ymarfer mapio eisiau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ond nid oeddent yn gwneud hynny gan fod cynghorau'n gyndyn i ddefnyddio contractau allanol, gan fod y contractau'n rhy fawr, oherwydd diffyg defnyddio cymalau cymdeithasol, oherwydd taliadau hwyr, ac oherwydd rhwystrau eraill. Fodd bynnag, dim ond 20% oedd wedi'u cofrestru ar

GwerthwchiGymru a dim ond 10% oedd yn ymwybodol o'r canllawiau. Mae WCVA yn hyrwyddo GwerthwchiGymru yn rheolaidd i annog mwy o sefydliadau i gofrestru.

Mae dadansoddiad o'r 20 menter gymdeithasol fwyaf yn yr astudiaeth yn awgrymu eu bod wedi digwydd ble cafwyd set o amgylchiadau penodol (nad oedd yn hawdd eu dyblygu) megis marchnad fonopoli (Glas Cymru), marchnad a grëwyd ar gyfer blaenoriaethau penodol a dim byd arall (cymdeithasau tai), neu ble cafwyd buddsoddiad sylweddol o refeniw a chyfalaf cyhoeddus.

Y cwestiwn mawr, felly, yw a yw'r llywodraeth yn barod i greu'r amodau marchnad ble gall mentrau cymdeithasol ffynnu? Ac a oes digon yn cael ei wneud i helpu mudiadau'r trydydd sector i amrywio eu cyllid a masnachu pan geir cyfleoedd i wneud hynny? Bydd mudiadau'n ymateb i'r cyfleoedd a gânt mewn marchnadoedd, ond ni allant greu marchnadoedd pan nad ydynt yn bodoli.